**EITEM AR YR AGENDA: 10**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

**18 Gorffennaf 2016**

**CYNLLUN TREIALU CYD-YMATEB**

**Adroddiad gan Richard Fairhead, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

**Diben yr Adroddiad**

1. Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am hynt a chanfyddiadau cychwynnol y cynllun treialu cyd-ymateb sy'n cael ei gynnal gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC).

**Cefndir**

2. Yn y cyd-destun hwn, mae 'cyd-ymateb' yn derm sy'n cael ei ddefnyddio am argyfwng meddygol y mae GTAGC ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (YGAC) yn ymateb iddo ill dau.

3. Ym mis Gorffennaf 2015, cysylltodd Cyd-Gyngor yr NJC â GTAGC i ddweud bod cytundeb wedi ei gyrraedd rhwng Undeb yr FBU (Undeb y Brigadau Tân) ynglŷn â chynnal cynlluniau treialu cyd-ymateb mewn gwasanaethau tân ac achub ledled y DU; bu i GTAGC wirfoddoli i gymryd rhan a derbyniwyd y cynnig gan Gyd-Gyngor yr NJC ddechrau mis Awst 2015.

4. Roedd GTAGC yn bodloni'r amodau a nodwyd gan y Cyd-Gyngor; yn enwedig mewn perthynas ag yswiriant ac indemniad; a hysbyswyd ddechrau Awst 2015 bod y Gwasanaeth wedi cael ei dderbyn i'r cynllun treialu.

5. Nodwyd y byddai'r cynllun treialu'n rhedeg tan 30 Mehefin 2016, ac y byddai gwerthusiad llawn yn cael ei gynnal wedi hynny.

6. Yn nechrau Gorffennaf 2016, cafodd GTAGC wybod bod y Cyd-Gyngor ac Undeb yr FBU wedi dod i gytundeb pellach ac y byddai'r cynllun treialu'n cael ei ymestyn ac y byddai'n rhedeg tan 28 Chwefror 2017.

**Gwybodaeth**

7. Bu GTAGC ac YGAC yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu'r egwyddorion ynglŷn â'r modd y byddai'r cynllun treialu'n gweithio yng Ngogledd Cymru, a chytunwyd ar y canlynol:

   a. rhaid i holl staff GTAGC a oedd yn cymryd rhan yn y cynllun treialu:
      i. bod wedi cael eu hyfforddi i'r lefel gywir,
      ii. bodloni gwiriad DBS,
      iii. cael cwrs o frechiadau'n erbyn Hepatitis;

   b. byddai'r cynllun treialu'n rhedeg o saith gorsaf ledled y rhanbarth, fel bod modd i'r tair system dyletswydd sy'n cael eu gweithredu gan GTAGC fod yn rhan o'r cynllun;


   c. ni fyddai GTAGC ond yn ymateb i alwadau a nodir gan YGAC fel galwadau COCH 1 – sef argyfyngau meddygol sy'n bygwth bywyd a dim ond yn cynnwys:

      i. trawiad ar y galon,
      ii. ataliad y galon,
      iii. gwaedu difrifol,
      iv. ataliad anadlol,
      v. personau anymwybodol / anymatebol;

   d. Dim ond mewn ardal a ragnodwyd ymlaen llaw y byddai GTGAC yn ymateb ynddi, a hynny o gwmpas gorsafoedd y cynllun treialu, a byddent yn ymateb dim ond os na fyddai hynny'n effeithio ar y gofal tân.

8. Tynnodd un orsaf (Glannau Dyfrdwy – sef gorsaf shifftiau 24 awr) allan o'r cynllun treialu o ganlyniad i brinder gwirfoddolwyr; roedd y chwech arall, sef Caergybi a Bae Colwyn (gorsafoedd criw dydd) a Threffynnon, Llangollen, Dolgellau a Phwllheli (gorsafoedd y system RDS), i gyd yn cyd-ymateb erbyn 4 Chwefror 2016.


9. Hyd at ddiwedd Mehefin 2016, mae GTGAC wedi cael 143 o geisiadau gan YGAC i gyd-ymateb i argyfyngau meddygol. Aeth GTGAC at gyfanswm o 41 o'r digwyddiadau hyn.




10. Dyma'r rhesymau dros beidio â mynd atynt

a. dim criw ar gael - 54
b. digwyddiad y tu allan i'r ardal y cytunwyd arni - 22
c. criwiau wedi'u tynnu o ddyletswydd gan YGAC -26

11. Mae'r tabl isod yn dangos y mathau o alwadau cyd-ymateb a wnaeth GTAGC:



12. Roedd y canlyniad i'r claf yn y 41 o ddigwyddiadau yr aethpwyd atynt yn gadarnhaol mewn 63% ohonynt, gyda 26 o anafusion yn cael eu trin a naill ai'n cael eu rhyddhau yn y fan a'r lle neu'n cael eu cludo i'r ysbyty. Mae'r ganran hon yn cael ei ystyried gan YGAC yn eithriadol dda.

| Canlyniad Clinigol | Nifer y Digwyddiadau |
|---|---|
| Cynnal Bywyd Uwch* - Bu farw'r claf | 13 |
| Bu farw'r claf | 2 |
| Gwelliant yn y claf a'i drin yn y fan a'r lle | 3 |
| Trin y claf yn y fan a'r lle a'i ryddhau | 2 |
| Cylchrediad digymell yn dychwelyd | 1 |
| Trin y claf a'i gludo i'r ysbyty | 18 |
| YGAC yn trin y claf yn y fan a'r lle | 1 |
| GTAGC yn trin y claf yn y fan a'r lle | 1 |
| **Cyfanswm i gyd** | **41** |

** Mae Cynnal Bywyd Uwch (Advanced Life Support - ALS) yn gyfres o brotocolau a sgiliau sy'n ymestyn Cynnal Bywyd Sylfaenol er mwyn rhoi rhagor o gefnogaeth i'r cylchrediad ac yn darparu llwybr anadlu agored a digon o anadlu.*

**Argymhelliad**

13. Bod yr Aelodau'n nodi'r wybodaeth a'r cynnydd a wnaed gan GTAGC wrth ddatblygu'r cynllun treialu cyd-ymateb, a'r canlyniadau a gafwyd drwy ymyriad gan GTAGC i 63% o'r anafusion.